Llywodraeth Cymru
Welsh Government

YSTADEGAU

# Crynodeb perfformiad a gweithgaredd y GIG: Ionawr a Chwefror 2023

Adroddiad yn crynhoi data am weithgarwch a pherfformiad yn y GIG yng Nghymru ar gyfer Ionawr a Chwefror 2023.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 23 Mawrth 2023

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 23 Mawrth 2023

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


Cyflwyniad

Prif bwyntiau

Gofal heb ei drefnu

Gofal wedi'i drefnu

Gwybodaeth am ansawdd a methodoleg

Diweddariad nesaf

Manylion cyswllt



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Cyflwyniad

Gall y gweithredu diwydiannol a gymerwyd gan staff y gwasanaethau ambiwlans fod wedi effeithio ar yr ystadegau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn.

Yn sgil yr effaith y mae COVID-19 wedi'i chael ar lefelau perfformiad a gweithgarwch y GIG, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei **rhaglen i drawsnewid a moderneiddio gofal a gynlluniwyd a lleihau rhestrau aros yng Nghymru**. Mae'r cynllun hwn yn nodi nifer o uchelgeisiau allweddol i leihau amseroedd aros ar gyfer pobl yng Nghymru. Rydym wedi ymgorffori'r mesuriadau perfformiad yma'n erbyn yr uchelgeisiau hyn yn y datganiad ystadegol hwn ac ar StatsCymru.

Mae'r data a ddarperir yn yr adroddiad ystadegol hwn wedi cael eu darparu gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW) oni nodir yn wahanol. Ceir rhagor o fanylion ar y data ym mhob maes pwnc ar ein gwefan **StatsCymru**.

## Prif bwyntiau

Ym mis Chwefror, gwnaethpwyd 67,641 o alwadau i wasanaeth llinell gymorth 111, y nifer isaf o alwadau ers i'r gyfres ddechrau ym mis Ebrill 2022. O'r rhain, atebwyd bron i 54,000 o alwadau (80%). Cafwyd dros 357,000 o ymweliadau â **gwefan GIG 111 Cymru** hefyd, a llenwyd tua 12,750 o **holiaduron symptomau (GIG 111 Cymru)**.

Ym mis Chwefror, cafodd y gwasanaeth ambiwlans 3,691 o alwadau coch (bywyd yn y fantol), sef 12.5% o'r holl alwadau. Ar gyfartaledd bob dydd, cafwyd 132 o alwadau a oedd yn peryglu bywyd, a oedd debyg i lefelau mis Ionawr.

Roedd 50.9% o'r galwadau coch wedi derbyn ymateb brys o fewn wyth munud.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Roedd hyn 2.0 pwynt canran yn uwch na mis Ionawr. Ym mis Chwefror, gwelwyd perfformiad ar lefelau a welwyd drwy gydol 2022, ar ôl cofnodi’r ffigur isaf ym mis Rhagfyr 2022. Dim ond o fis Mai 2019 ymlaen y gellir cymharu data ar gyfer galwadau coch.

Ar gyfartaledd bob dydd, cafwyd 2,780 o ymweliadau ag adrannau brys, sy’n uwch o’i gymharu â’r mis blaenorol. Roedd y perfformiad wedi gwella yn erbyn y targedau o bedair awr a deuddeg awr, sef y perfformiad gorau ers mis Haf 2021. Roedd yr amser cyfartalog (canolrifol) a gafodd ei dreulio mewn adrannau brys ym mis Chwefror yn debyg i’r mis blaenorol, sef dwy awr a thri deg saith munud.

Mae’r pandemig wedi achosi cynnydd mawr mewn llwybrau cleifion sy’n aros i ddechrau triniaeth. Ym mis Ionawr, gostyngodd y nifer ychydig, o tua 735,000 i tua 734,000, sef pedwerydd gostyngiad yn olynol yn dilyn cynnydd cyson ers mis Ebrill 2020. Nid yw nifer y llwybrau cleifion yr un fath â nifer y cleifion unigol, oherwydd mae gan rai pobl sawl llwybr ar agor. Mae mwy o wybodaeth ar gael ym **mlog Prif Ystadegydd** Llywodraeth Cymru.

Mae gwybodaeth reoli newydd yn awgrymu bod ychydig dros 576,000 o gleifion unigol ar restrau aros am driniaethau yng Nghymru ym mis Ionawr 2023, pan oedd ychydig dros 734,000 o lwybrau cleifion ar agor. Dyma’r pedwerydd gostyngiad misol yn olynol, gostyngiad o fwy nag 1,800 o gleifion ers mis Rhagfyr 2022.

Roedd cyfran y llwybrau cleifion a oedd yn aros llai na 26 wythnos wedi cynyddu rhywfaint i 55.7% ym mis Ionawr. Mae hyn wedi bod yn gymharol sefydlog ers tro ar ôl disgyn yn sylweddol o’r lefelau cyn y pandemig. Roedd nifer y llwybrau a oedd yn aros mwy na 36 wythnos wedi gostwng am y pumed mis yn olynol ym mis Ionawr, i ychydig dros 244,600, ond mae’n dal yn uchel mewn cyd-destun hanesyddol.

Roedd tua 41,100 o lwybrau’n aros mwy na dwy flynedd, 42% yn is na’r lefel uchaf, yn dilyn gostyngiad am y degfed mis yn olynol, ar ôl cynnydd cyson dros

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

y flwyddyn flaenorol. Roedd yr amser cyfartalog (canolrifol) yr oedd llwybrau cleifion wedi bod yn aros am driniaeth ar ddiwedd mis Ionawr wedi disgyn ychydig o gymharu â'r mis blaenorol i 21.4 wythnos.

Roedd nifer y llwybrau a oedd yn aros mwy na blwyddyn am eu hapwyntiad cyntaf fel claf allanol wedi gostwng i oddeutu 68,000. Ni chyrhaeddwyd y targed ar gyfer adfer gofal wedi'i gynllunio, er gwaethaf gostyngiad o 34% o'r lefel uchaf a gyrhaeddwyd ym mis Awst 2022.

Ar gyfer gwasanaethau diagnostig, cynyddodd nifer y llwybrau cleifion a oedd yn aros i oddeutu 112,500 ym mis Ionawr. Roedd nifer y llwybrau cleifion a oedd yn aros mwy nag 8 wythnos (y targed ar gyfer yr amser aros hiraf) wedi cynyddu i fymryn o dan 48,000 ym mis Ionawr.

Ar gyfer therapïau, roedd nifer y llwybrau cleifion a oedd yn aros wedi gostwng i oddeutu 58,500 ym mis Ionawr, ond mae'n dal yn uchel mewn cyd-destun hanesyddol. Roedd y nifer a oedd yn aros mwy na phedair wythnos ar ddeg (y targed ar gyfer yr amser aros hiraf) wedi gostwng i oddeutu 8,000, gan ostwng am y degfed mis yn olynol.

Ar gyfer gwasanaethau canser, dechreuodd llai o bobl eu triniaeth ddiffiniol gyntaf ym mis Ionawr (1,760) nag yn y mis blaenorol. Roedd nifer y llwybrau a gaewyd ar ôl i'r claf gael gwybod nad oedd canser arno wedi cynyddu o gymharu â'r mis blaenorol (i 13,429). Roedd y perfformiad wedi gostwng o gymharu â'r targed 62 diwrnod ym mis Ionawr i 50.1% o'i gymharu â 52.9% yn y mis blaenorol, a dyma'r ffigur isaf ers dechrau cadw cofnodion.

# Gofal heb ei drefnu

Darperir data newydd yn ymwneud â gofal heb ei drefnu ar gyfer mis Chwefror 2023.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Gall y gweithredu diwydiannol a gymerwyd gan staff rhai gwasanaethau ambiwlans ym mis Chwefror fod wedi effeithio ar yr ystadegau ar gyfer gofal heb ei drefnu a gyflwynir yn yr adroddiad hwn.

## Galwadau i wasanaeth 111

Ar 16 Mawrth 2022, cafodd gwasanaeth llinell gymorth 111 ar gyfer achosion nad ydynt yn rhai brys ei gyflwyno ledled Cymru.

Ym mis Chwefror, gwnaethpwyd cyfanswm o 67,641 o alwadau i wasanaeth llinell gymorth 111, sef y nifer isaf o alwadau ers i'r gyfres ddechrau ym mis Ebrill 2022. O'r rhain, atebwyd oddeutu 54,000 (80%) o'r galwadau gan y gwasanaeth 111 yng Nghymru, sef cyfartaledd o dros 1,900 o alwadau'r dydd.

Cafodd amcangyfrif o 13,538 (20%) o alwadau eraill eu terfynu gan y galwr cyn cael eu hateb. O'r rhain, cafodd 3,984 eu terfynu o fewn 60 eiliad i'r negeseuon awtomatig, gan awgrymu bod eu hanghenion yn debygol o fod wedi cael eu diwallu.

Cafodd ychydig dros 9,500 o alwadau eu gadael ar ôl 60 eiliad ac ystyrir y rhain yn alwyr yr oedd yn fwy tebygol bod dal angen gwasanaeth arnynt ar ôl y negeseuon ond nad oeddent yn gallu mynd drwodd neu eu bod wedi penderfynu peidio ag aros. Mae'r ffigur hwn wedi gostwng yn ôl i lefelau'r misoedd blaenorol ar ôl y lefel uchaf ym mis Rhagfyr 2022, sef dros 4 gwaith yn uwch na'r lefel uchaf blaenorol ym mis Gorffennaf 2022.

O'r galwadau a atebwyd, nododd 1,045 o alwyr eu bod yn dymuno siarad Cymraeg ar yr alwad.

Cafwyd bron i 357,000 o ymweliadau â **gwefan GIG 111 Cymru**, a llenwyd dros 12,750 o **holiaduron symptomau (GIG 111 Cymru)** ym mis Chwefror.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.


Cyhoeddir rhagor o ddata ar **StatsCymru**.

## Galwadau brys i'r gwasanaeth ambiwlans

Mae ystod ehangach o ddangosyddion ansawdd ambiwlansys yn cael eu cyhoeddi ar **wefan y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys** ac ar **StatsCymru**.

### Gweithgaredd

**Ffigwr 1: Galwadau ambiwlans brys dyddiol ar gyfartaledd, yn ôl math o alwad a mis, Chwefror 2018 i Chwefror 2023 [Nodyn 1]**




Disgrifiad o Ffigwr 1: Siart linell yn dangos bod nifer y galwadau brys a gafodd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru wedi gostwng yn ystod pandemig COVID-19 ond wedi dychwelyd i lefel cyn covid ers hynny.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Ffynhonnell: Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

**Galwadau ambiwlans brys ac ymatebion i alwadau coch, fesul bwrdd iechyd lleol a mis ar StatsCymru**

[Nodyn 1] Roedd diweddaru'r arferion delio â galwadau ym mis Mai 2019 wedi arwain at wahaniaethau yn nifer y galwadau coch. Nid yw'n bosibl cymharu'n uniongyrchol cyn ac ar ôl y dyddiad hwn. Mae rhagor o fanylion ar gael yn yr adran **gwybodaeth allweddol am ansawdd**.

Ym mis Chwefror, gwnaethpwyd 29,500 o alwadau brys i'r gwasanaeth ambiwlans. Roedd hyn yn gyfartaledd o 1,052 o alwadau'r dydd, sef cynnydd o 51 (5.1%) o alwadau'r dydd ar gyfartaledd o gymharu â'r mis blaenorol, ond 176 (14.3%) yn llai o alwadau'r dydd ar gyfartaledd na'r un mis y llynedd. Cyfanswm nifer y galwadau ym mis Chwefror oedd yr ail isaf ers i gofnodion cymharol ddechrau.

Mae galwadau i'r gwasanaeth ambiwlans yn cael eu categoreiddio fel rhai coch (lle mae bywyd yn y fantol), rhai ambr (difrifol ond nid yw bywyd yn y fantol) neu rai gwyrdd (achosion nad ydynt yn rhai brys). Ar gyfartaledd, roedd 132 o alwadau coch yn cael eu gwneud bob dydd ym mis Chwefror, sy'n debyg i'r mis blaenorol a'r pumed uchaf o alwadau coch dyddiol a gofnodwyd.

Ym mis Chwefror, cyfran yr holl alwadau lle'r oedd bywyd yn y fantol oedd 12.5%, i lawr o 13.1% ym mis Ionawr, ond yn dal yn uchel mewn cyd-destun hanesyddol.

## Perfformiad


#### Targed

- Ymateb i 65% o alwadau coch (lle mae bywyd yn y fantol, mae rhywun

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

mewn perygl o farw’n gyflym, fel ataliad ar y galon) o fewn 8 munud.

**Ffigur 2: Canran yr ymatebion brys sy’n cyrraedd lleoliad y claf o fewn 8 munud i ateb galwad goch a sefydlu’r brif gwyn, Chwefror 2018 i Chwefror 2023 [Nodyn 1]**




Disgrifiad o Ffigwr 2: Siart linell yn dangos bod perfformiad ar gyfer galwadau ymateb brys wedi gwella yn ystod cyfnod cychwynnol y coronafeirws ond ei fod, fel arall, wedi gostwng dros y tymor hir.

Ffynhonnell: Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

**Ymatebion brys: perfformiad fesul munud i alwadau coch, fesul bwrdd iechyd lleol a mis ar StatsCymru**

[Nodyn 1] Mae diweddaru’r arferion delio â galwadau ym mis Mai 2019 wedi arwain at wahaniaethau yn nifer y galwadau coch. Nid yw’n bosibl cymharu’n uniongyrchol cyn ac ar ôl y dyddiad hwn. Mae rhagor o fanylion ar gael yn yr

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

adran **gwybodaeth allweddol am ansawdd**.

Ym mis Chwefror, cyrhaeddwyd 50.9% o'r ymatebion brys i alwadau (coch) lle mae bywyd yn y fantol o fewn 8 munud ar ôl pennu lleoliad y claf a'r brif gŵyn. Roedd hyn 2.0 pwynt canran yn uwch nag yn y mis diwethaf, ond 4.1 pwynt canran yn is nag ym mis Chwefror 2022. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae cyfran y galwadau coch yr ymatebwyd iddynt o fewn 8 munud wedi gostwng yn weddol gyson. Mae'n bwysig nodi bod cynnydd sylweddol wedi bod yn nifer y galwadau coch a dderbyniwyd dros yr un cyfnod. Yn 2022, cafodd tua 70% yn fwy o alwadau coch eu derbyn nag yn 2020 a 2019.

Mae'r amser ymateb canolrifol dros y pedair blynedd cyn y pandemig yn amrywio rhwng 4 munud 30 eiliad a 6 munud yng nghyswllt galwadau coch. Ym mis Chwefror, yr amser ymateb cyfartalog (canolrifol) i alwadau 'coch' lle'r oedd bywyd yn y fantol oedd 7 munud a 54 eiliad. Roedd hyn 17 eiliad yn gynt nag yn y mis blaenorol, ond 31 eiliad yn arafach nag ym mis Chwefror 2022.

Mae'r mwyafrif o alwadau i'r gwasanaeth ambiwlans yn cael eu categoreiddio fel galwadau 'ambr', ac nid oes targed perfformiad ar gyfer amseroedd ymateb galwadau. Ym mis Chwefror, yr amser ymateb canolrifol ar gyfer galwadau ambr oedd 59 awr a 30 munud. Roedd hyn tua 6 munud yn gynt nag ym mis Ionawr a bron i 18 munud yn gynt nag ym mis Chwefror 2022.


## Ymweliadau ag adrannau achosion brys a derbyniadau i'r ysbyty

Mae ystod ehangach o ystadegau perfformiad adrannau achosion brys yn cael eu cyhoeddi ar wefan yr **Uned Comisiynu Cydweithredol Cenedlaethol (NCCU), fel gwybodaeth reoli.**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Gweithgaredd

**Ffigur 3: Derbyniadau cyfartalog i adrannau damweiniau ac achosion brys GIG Cymru, a derbyniadau i'r ysbyty o ganlyniad i dderbyniadau i adrannau achosion brys mawr fesul dydd, Chwefror 2018 i Chwefror 2023 [Nodyn 1]**




Disgrifiad o Ffigwr 3: Siart linell yn dangos ymweliadau ag adrannau achosion brys, sydd fel arfer yn uwch yn ystod misoedd yr haf na'r gaeaf, ond sydd fel arall yn aros yn gymharol sefydlog. Cafwyd gostyngiad yn nifer yr ymweliadau oherwydd pandemig COVID-19.

Ffynhonnell: Set ddata adran achosion brys (EDDS), Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW)

**Nifer yr ymweliadau ag adrannau achosion brys GIG Cymru fesul band oedran, rhyw a safle ar StatsCymru**

[Nodyn 1] Mae'r Siart yn dangos nifer yr ymweliadau ag adrannau achosion brys

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

mawr ac unedau mân anafiadau, a nifer y derbyniadau i'r ysbyty ar ôl mynd i adrannau achosion brys mawr yn unig.

Ym mis Chwefror, cafwyd oddeutu 77,800 o ymweliadau â'r holl adrannau brys. Roedd hyn yn gyfartaledd o 2,780 o ymweliadau ag adran achosion brys y dydd; 265 yn fwy bob dydd ar gyfartaledd na'r mis blaenorol.

Ym mis Chwefror, derbyniwyd dros 13,500 o gleifion i'r un ysbyty neu i ysbyty gwahanol ar ôl bod mewn adran achosion brys fawr. Roedd hyn 4.9% yn is na'r mis blaenorol, ond 6.4% yn uwch na'r mis cyfatebol yn 2022.


## Perfformiad

### Targedau

- Dylai 95% o gleifion newydd dreulio llai na 4 awr mewn adrannau achosion brys o'r eiliad iddynt gyrraedd nes iddynt gael eu derbyn, eu trosglwyddo neu eu rhyddhau.
- Ni ddylai'r un claf orfod aros mwy na 12 awr mewn adrannau achosion brys o'r eiliad iddynt gyrraedd nes iddynt gael eu derbyn, eu trosglwyddo neu eu rhyddhau.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Ffigur 4: Canran y cleifion sy'n cael eu derbyn, eu trosglwyddo neu eu rhyddhau o fewn 4 awr mewn adrannau achosion brys y GIG, Chwefror 2018 i Chwefror 2023**




Disgrifiad o Ffigwr 4: Siart linell yn dangos bod canran y cleifion a gafodd eu derbyn, eu trosglwyddo neu eu rhyddhau o fewn 4 awr mewn adrannau brys wedi gostwng yn ystod pandemig y coronafeirws ac nad yw hynny wedi mynd yn ôl i lefelau cyn y pandemig.

Ffynhonnell: Set ddata adran achosion brys (EDDS), Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW)

## Perfformiad yn erbyn targed 4 awr fesul ysbyty ar StatsCymru

Ym mis Chwefror, roedd 71.6% o gleifion yn holl adrannau achosion brys y GIG wedi treulio llai na 4 awr yn yr adran, o'r eiliad iddynt gyrraedd nes iddynt gael eu derbyn, eu trosglwyddo neu eu rhyddhau. Roedd hyn 1.7 pwynt canran yn uwch na'r mis blaenorol, a'r uchaf ers mis Mehefin 2021, ond yn dal yn isel


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

mewn cyd-destun hanesyddol.

Yn 2019, yr amser canolrifol a dreuliwyd mewn adran achosion brys oedd tua 2 awr 30 munud. Yn ystod rhan gyntaf y pandemig, wrth i nifer yr ymweliadau ostwng, roedd canolrif yr amser a dreulir yn yr adran wedi gostwng i isafbwynt o 1 awr a 47 munud ym mis Ebrill 2020. Ers hynny, mae canolrif yr amseroedd wedi cynyddu ac wedi cyrraedd y lefel uchaf erioed, sef 3 awr ac 8 munud ym mis Mawrth 2022. Yn y data diweddaraf ar gyfer mis Chwefror, canolrif yr amser aros oedd 2 awr a 37 munud, sef 2 funud yn araf na'r mis blaenorol.

Mae canolrif yr amser sy'n cael ei dreulio mewn adran achosion brys yn amrywio yn ôl oedran. Cyn y pandemig, roedd plant (rhwng 0 a 4 oed) yn treulio rhwng 1 awr a 30 munud a 2 awr mewn adrannau achosion brys, ac roedd cleifion hŷn (85 oed a hŷn) yn treulio rhwng 3 awr a 30 munud a 5 awr.


Ym mis Chwefror, treuliodd plant (0 i 4 oed) 2 awr a 2 munud yno ar gyfartaledd. Treuliodd oedolion 85 oed a hŷn gyfartaledd o 5 awr a 21 munud mewn adrannau brys.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Ffigur 5: Cleifion sy'n aros mwy na 12 awr i gael eu derbyn, eu trosglwyddo, neu eu rhyddhau i adrannau achosion brys y GIG, Chwefror 2018 i Chwefror 2023**




Disgrifiad o Ffigwr 5: Siart linell yn dangos nifer y cleifion sy'n aros mwy na 12 awr i gael eu derbyn, eu trosglwyddo neu eu rhyddhau mewn adrannau brys, a oedd wedi gostwng yn sydyn yn ystod cyfnod cychwynnol y coronafeirws ond sydd fel arall wedi tueddu am i fyny dros y tymor hir.

Ffynhonnell: Set ddata adran achosion brys (EDDS), Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW)

## Perfformiad yn erbyn y targed 12 awr fesul ysbyty ar StatsCymru

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Ym mis Chwefror, roedd 8,036 o gleifion yn aros 12 awr neu fwy. Roedd hyn 961 (10.7%) yn llai nag yn y mis blaenorol, a’r gorau ers mis Gorffennaf 2021.

## Gofal wedi’i drefnu

Darperir data newydd yn ymwneud â gofal heb ei drefnu ar gyfer mis Ionawr 2023.

Gall y gweithredu diwydiannol a gymerwyd gan staff nyrsio fod wedi effeithio ar yr ystadegau gofal wedi'i drefnu a gyflwynir yn yr adroddiad hwn.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**


Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Atgyfeiriadau cleifion allanol

### Gweithgaredd

**Ffigur 6: Atgyfeiriadau dyddiol ar gyfartaledd ar gyfer apwyntiad cyntaf fel claf allanol, Ionawr 2018 i Ionawr 2023**




Disgrifiad o Ffigwr 6: Siart linell yn dangos atgyfeiriadau cleifion allanol, sydd wedi bod yn gyfnewidiol gyda'r duedd am i fyny yn dilyn gostyngiad mawr yn nifer yr atgyfeiriadau ym mis Chwefror 2020 oherwydd pandemig y coronafeirws.

Ffynhonnell: Set Ddata Atgyfeiriad Cleifion Allanol, Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW)

[Atgyfeiriadau cleifion allanol ar StatsCymru]


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.


Ar gyfartaledd, roedd 3,851 o atgyfeiriadau ar gyfer apwyntiad cyntaf fel claf allanol wedi'u gwneud bob dydd ym mis Ionawr 2023. Mae hyn yn gynnydd o 22.0% (694 yn fwy o atgyfeiriadau bob dydd ar gyfartaledd) o'i gymharu â mis Rhagfyr 2022 a 20.3% o'i gymharu â mis Ionawr 2022.

## Perfformiad

### Targedau

- Neb yn aros mwy na blwyddyn am eu hapwyntiad cyntaf fel claf allanol erbyn diwedd 2022 (targed newydd wedi'i sefydlu yn y **cynllun adfer gofal wedi'i gynllunio**).

**Ffigur 7: Llwybrau sy'n aros dros flwyddyn am eu hapwyntiad cyntaf, Ionawr 2018 i Ionawr 2023**




Disgrifiad o Ffigwr 7: Siart linell yn dangos nifer y llwybrau cleifion sy'n aros dros

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

flwyddyn, a gynyddodd yn gyflym yn ystod pandemig y coronafeirws ond sydd wedi bod yn gostwng yn ystod y misoedd diwethaf.

Ffynhonnell: Amseroedd aros Rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth, Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW)

### Atgyfeiriad am driniaeth ar StatsCymru

Ym mis Ionawr, roedd nifer y llwybrau a oedd yn aros mwy na blwyddyn am eu hapwyntiad cyntaf fel claf allanol wedi gostwng 9.8%, o'i gymharu â'r mis blaenorol i oddeutu 68,000.

Ni chyrhaeddwyd y targed ar gyfer adfer gofal wedi'i gynllunio, ond mae wedi gostwng 34% o'r lefel uchaf a gyrhaeddwyd ym mis Awst 2022.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**


Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Amseroedd Aros Diagnostig a Therapi

## Gweithgaredd

**Ffigur 8: Llwybrau cleifion sy’n aros am wasanaethau diagnostig a therapi, Ionawr 2018 i Ionawr 2023 [Nodyn 1]**




Disgrifiad o Ffigwr 8: Siart linell yn dangos tuedd hirdymor am i fyny yn nifer y cleifion sy’n aros am wasanaethau diagnostig, gan gynnwys cynnydd sydyn ar ddechrau pandemig y coronafeirws. Mae nifer y llwybrau cleifion sy’n aros am wasanaethau therapi wedi cynyddu’n sylweddol ers dechrau 2021.

Ffynhonnell: Gwasanaethau Diagnostig a Therapi (DATS), Iechyd a Gofal Digidol Cymru

**Amseroedd Aros Gwasanaethau Diagnostig a Therapi yn ôl wythnos ar StatsCymru**


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

[Nodyn 1] Mae’r isafbwynt ym mis Ebrill 2020 ar gyfer therapïau wedi digwydd yn rhannol oherwydd nad oedd Betsi Cadwaladr wedi cyflwyno data ar gyfer y mis hwn, gweler yr adran gwybodaeth allweddol am ansawdd i gael **rhagor o wybodaeth**.

Ym mis Ionawr, roedd ychydig o dan 112,500 o lwybrau cleifion yn aros am brofion diagnostig, sef cynnydd bach o 0.7% o’i gymharu â’r mis blaenorol. Roedd mwy na 58,500 o lwybrau cleifion yn aros am therapïau, sef gostyngiad o 4.5% o’i gymharu â’r mis blaenorol, gan barhau’n uchel mewn cyd-destun hanesyddol ond yn dechrau gostwng yn y misoedd diweddar.


## Perfformiad

### Targedau

- Yr amser aros hiraf i gael profion diagnostig penodol yw 8 wythnos.
- Yr amser aros hiraf i gael gwasanaethau therapi penodol yw 14 wythnos.
- Fe wnaeth y **cynllun adfer gofal wedi'i gynllunio** sefydlu Gwanwyn 2024 fel dyddiad targed i gyflawni'r targedau hyn.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Ffigur 9: Llwybrau cleifion sy’n aros yn hwy na’r amser targed ar gyfer gwasanaethau diagnostig a therapi, Ionawr 2018 i Ionawr 2023 [Nodyn 1]**




Disgrifiad o Ffigwr 9: Siart linell yn dangos cynnydd mawr yn nifer y cleifion a oedd yn aros dros 8 wythnos am wasanaethau diagnostig ar ddechrau pandemig y coronafeirws, mae nifer y llwybrau cleifion sy’n aros wedi bod yn gostwng yn araf. Roedd nifer y llwybrau cleifion a oedd yn aros mwy na 14 wythnos am wasanaethau therapi wedi cyrraedd y lefel uchaf ym mis Mehefin 2020 a mis Mawrth 2022, ond nid yw’r naill na’r llall yn agos i’r lefelau cyn y pandemig.

Ffynhonnell: Gwasanaethau Diagnostig a Therapi (DATS), Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW)

## Amseroedd Aros Gwasanaethau Diagnostig a Therapi yn ôl wythnos ar StatsCymru

[Nodyn 1]: Ni wnaeth Betsi Cadwaladr gyflwyno data ar gyfer mis Ebrill 2020, felly nid ydynt wedi’u cynnwys yn ffigurau Cymru ar gyfer y mis hwn.

Ddiwedd mis Ionawr, roedd ychydig o dan 48,000 o lwybrau cleifion yn aros yn

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

hirach na'r amser targed am brofion diagnostig. Roedd hyn 1.5% yn fwy na'r mis blaenorol.

Ar ddiwedd mis Ionawr, roedd bron i 8,000 o lwybrau cleifion yn aros yn hirach na'r amser targed ar gyfer therapïau. Roedd hyn yn ostyngiad o 13.4% o gymharu â'r mis blaenorol ac yn 46% o ostyngiad o'r lefel uchaf ym mis Mawrth 2022.

Roedd canolrif yr amseroedd aros am brofion diagnostig yn weddol sefydlog ers 2017 (2.8 wythnos ar gyfartaledd) ac ar gyfer gwasanaethau therapi ers 2018 (3.6 wythnos ar gyfartaledd). Roedd canolrif yr amseroedd aros am y ddau wasanaeth wedi cyrraedd y lefel uchaf yn 2020 (14.3 wythnos ar gyfer diagnosteg ac 14.9 wythnos ar gyfer therapïau).

Ym mis Ionawr, 6.3 wythnos oedd canolrif yr amser aros ar gyfer profion diagnostig, o'i gymharu â 6.4 yn y mis blaenorol. Roedd canolrif yr amser aros am wasanaethau therapi yn 5.2 wythnos, o'i gymharu â 6.2 yn y mis blaenorol.

## Amser rhwng atgyfeirio a thriniaeth

Mae'r ystadegau ar gyfer yr amser rhwng atgyfeirio a thriniaeth yn dangos data misol ar yr amseroedd aros ar gyfer llwybrau sydd ar agor ac wedi cau ar ôl derbyn atgyfeiriad gan feddyg teulu neu ymarferydd meddygol arall i'r ysbyty am driniaeth yn y GIG. Llwybrau agored yw'r rheini sy'n aros ar y rhestr aros am driniaeth, ac mae llwybrau sydd wedi cau yn golygu'r rheini sydd wedi cael eu tynnu oddi ar y rhestr aros.

Mesurir gweithgarwch yn ôl llwybrau cleifion, sy'n wahanol i nifer y cleifion. Mae rhagor o wybodaeth am y gwahaniaeth hwn ar gael ym **mlog prif ystadegwyr Llywodraeth Cymru**.

Mae gwybodaeth reoli sydd newydd gael ei chasglu yn cael ei chyhoeddi hefyd,

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.


ar gyfer nifer y cleifion unigol sydd ar restrau aros am driniaethau yng Nghymru.

## Perfformiad

### Targedau

- Dim cleifion yn aros mwy na dwy flynedd yn y rhan fwyaf o arbenigeddau erbyn mis Mawrth 2023, a dim cleifion yn aros mwy na blwyddyn yn y rhan fwyaf o arbenigeddau erbyn gwanwyn 2025 (targedau newydd wedi'u sefydlu yn y **cynllun adfer gofal wedi'i gynllunio**).
- 95% o gleifion yn aros llai na 26 wythnos ar ôl atgyfeirio.
- Dim cleifion yn aros yn hirach na 36 wythnos am driniaeth ar ôl atgyfeirio.

**Ffigur 10: Llwybrau sy'n aros i ddechrau triniaeth, Ionawr 2018 i Ionawr 2023**




Disgrifiad o Ffigwr 10: Siart linell yn dangos bod y nifer sy'n aros wedi cynyddu'n sylweddol ers pandemig y coronafeirws ond mae wedi dechrau gostwng yn ddiweddar. Gwelwyd cynnydd yn nifer y cleifion sy'n aros mwy na blwyddyn a


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

dwy flynedd oherwydd pandemig y coronafeirws, ond mae'r niferoedd yn gostwng erbyn hyn.

Ffynhonnell: Amseroedd aros Rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth, Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW)

**Llwybrau cleifion sy'n aros i ddechrau triniaeth fesul mis, wythnosau wedi'u grwpio a cham y llwybr ar StatsCymru**

Ym mis Ionawr, roedd ychydig dros 734,000 o lwybrau cleifion yn aros i ddechrau triniaeth. Dyma'r pedwerydd gostyngiad misol yn olynol, i lawr 0.1% o fwy na 735,000 ym mis Rhagfyr, sy'n uchel mewn cyd-destun hanesyddol a 58.4% yn uwch nag ym mis Chwefror 2020. Nid oes modd cymharu'r ystadegau rhestrau aros yn uniongyrchol ar draws pedair gwlad y DU. **Nid oes modd cymharu ystadegau rhestrau aros yn uniongyrchol ar draws pedair gwlad y DU (blog gan y Prif Ystadegydd)**.

Roedd dros 152,000 o lwybrau'n aros am fwy na blwyddyn ym mis Ionawr. Mae'r ffigwr hwn wedi gostwng am y pumed mis yn olynol, er ei fod yn gymharol sefydlog ers gwanwyn 2021. Roedd bron i 41,100 o lwybrau'n aros mwy na dwy flynedd, 42% yn is na'r lefel uchaf, yn dilyn gostyngiad am y degfed mis yn olynol, ar ôl cynnydd cyson dros 2021.

Nid yw nifer y llwybrau cleifion yr un fath â nifer y cleifion unigol, oherwydd mae gan rai pobl sawl llwybr ar agor.

Nid oes gennym ystadegau swyddogol ynghylch nifer y cleifion unigol sy'n aros i ddechrau triniaeth. Fodd bynnag, mae'r wybodaeth reoli sydd newydd gael ei chasglu yn amcangyfrif bod 575,600 o gleifion unigol ar restrau aros yng Nghymru ym mis Tachwedd, pan oedd yr Ystadegau Gwladol (uchod) yn adrodd bod dros 734,000 o lwybrau cleifion yn agored. Dyma'r pedwerydd gostyngiad misol yn olynol, gostyngiad o fwy nag 1,800 o gleifion ers mis Rhagfyr 2022.


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Yn wahanol i'r Ystadegau Gwladol sydd wedi'u cynnwys mewn rhannau eraill o'r datganiad hwn, a aseswyd yn annibynnol yn erbyn y Cod Ymarfer ar gyfer ystadegau, mae'r amcangyfrif hwn yn seiliedig ar wybodaeth reoli sydd newydd gael ei chasglu. Er bod egwyddorion y Cod Ymarfer wedi'u cymhwyso, nid yw sicrhau ansawdd yn cyfateb i lefel yr Ystadegau Gwladol. Mae gwaith yn dal i fynd rhagddo i ddeall cryfderau a chyfyngiadau'r data hyn, a bydd hyn yn cael ei gyfleu'n glir wrth i ni ddysgu rhagor. Am y rhesymau hyn, mae mwy o ansicrwydd ynghylch yr amcangyfrif hwn na'r ffigurau eraill yn y datganiad hwn. Fodd bynnag, mae lefel diddordeb y cyhoedd mewn deall nifer y cleifion yn ychwanegol at nifer y llwybrau cleifion yn ychwanegu digon o werth i gyflwyno'r wybodaeth hon.

**Ffigur 11: Canran y llwybrau cleifion sy'n aros llai na 26 wythnos, yn ôl mis ac wythnosau o aros, Ionawr 2018 i Ionawr 2023**




Disgrifiad o Ffigwr 11: Siart linell yn dangos bod canran y cleifion sy'n aros llai na 26 wythnos wedi gostwng yn sydyn yn ystod pandemig y coronafeirws, ac mae'r perfformiad wedi sefydlogi rhwng 50 i 60% ers hynny.

Ffynhonnell: Amseroedd aros Rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth, Iechyd a Gofal


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.


Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Digidol Cymru (DHCW)

### Canran y llwybrau cleifion sy’n aros i ddechrau triniaeth o fewn y targed amser fesul mis a grwpiau o wythnosau ar StatsCymru

O blith mwy na 734,000 o lwybrau cleifion a oedd yn aros i ddechrau triniaeth erbyn diwedd mis Rhagfyr, roedd 55.7% wedi bod yn aros llai na 26 wythnos. Roedd hyn 0.4 pwynt canran yn uwch nag yn y mis blaenorol, a 28.6 pwynt canran yn is nag ym mis Chwefror 2020.

**Ffigur 12: Llwybrau cleifion sydd wedi aros mwy na 36 wythnos, yn ôl mis ac wythnosau o aros, Ionawr 2018 i Ionawr 2023**




Disgrifiad o Ffigwr 12: Siart linell yn dangos nifer y llwybrau cleifion sy’n aros dros 36 wythnos, a gynyddodd yn gyflym yn ystod pandemig y coronafeirws. Drwy gydol 2022 roedd y nifer yn dal i gynyddu, ond ar gyfradd arafach.

Ffynhonnell: Amseroedd aros Rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth, Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW)


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Canran y llwybrau cleifion sy’n aros i ddechrau triniaeth o fewn y targed amser fesul mis a grwpiau o wythnosau ar StatsCymru

Ym mis Ionawr, roedd ychydig dros 244,600 o lwybrau cleifion wedi bod yn aros dros 36 wythnos. Roedd hyn yn 33.3% o’r holl lwybrau cleifion sy’n aros i ddechrau triniaeth. Roedd hyn 3,480 (1.4%) yn llai nag yn y mis blaenorol, sy’n uchel mewn cyd-destun hanesyddol, ond yr isaf ers mis Tachwedd 2021.

Roedd canolrif yr amser aros i ddechrau triniaeth wedi bod tua 10 wythnos cyn y pandemig rhwng diwedd 2013 a mis Chwefror 2020. Cynyddodd hyn yn ystod y pandemig a chyrhaeddodd y lefel uchaf erioed o 29 wythnos ym mis Hydref 2020. Ym mis Ionawr, roedd canolrif yr amser aros yn 21.4 wythnos, sef cynnydd o 22.0 wythnos yn y mis blaenorol.

**Ffigur 13: Llwybrau cleifion sydd wedi cau, Ionawr 2018 i Ionawr 2023 [Nodyn 1]**




Disgrifiad o Ffigwr 13: Siart linell yn dangos nifer y llwybrau cleifion a gaewyd, sydd fel arfer yn amrywio. Ar ôl gostyngiad mawr ym mis Mawrth 2020 oherwydd pandemig y coronafeirws, mae nifer y llwybrau a gaewyd wedi codi’n raddol i


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

lefelau cyn y pandemig.

Ffynhonnell: Amseroedd aros Rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth, Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW)

**Llwybrau cleifion ar gau yn ôl y mis, y bwrdd iechyd lleol a'r wythnosau aros ar StatsCymru**

[Nodyn 1] Diwygiwyd y data i gynnwys llwybrau a gaewyd ym mwrdd iechyd Cwm Taf Morgannwg erbyn hyn. Hyd at ddatganiad ystadegol Gorffennaf 2022, nid oedd y gyfres ddata ar gael ar gyfer Cwm Taf Morgannwg. Mae rhagor o fanylion ar gael yn yr adran **gwybodaeth allweddol am ansawdd**.

Cafodd bron i 107,712 o lwybrau cleifion eu cau ym mis Ionawr. Roedd hyn yn gyfartaledd o 5,129 o lwybrau cleifion yn cau bob diwrnod gwaith. Roedd hyn yn gynnydd o gymharu â'r mis blaenorol.

## Gwasanaethau canser

Cafodd yr ystadegau hyn eu labelu'n **arbrofol (ONS)** o'r blaen. Yn dilyn adolygiad o'r dulliau, gwnaethom dynnu'r label arbrofol ym mis Tachwedd 2022, ac mae'r Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau (OSR) wedi cytuno wedyn bod yr ystadegau'n bodloni'r safonau sy'n ofynnol i'w dynodi'n **Ystadegau Gwladol**.


Mae nifer o **fesurau ehangach o'r llwybr amheuaeth o ganser** yn cael eu cynhyrchu gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru ac yn cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r datganiad ystadegol hwn.

## Gweithgaredd

### Ffigur 14: Llwybrau amheuaeth o ganser a gaewyd yn y mis, yn ôl mis

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

a chanlyniad, Ionawr 2020 i Ionawr 2023 [Nodyn 1]




Disgrifiad o Ffigwr 14: Siart linell yn dangos nifer y cleifion a ddywedodd nad oes ganddynt ganser, sy’n amrywio ond yn dangos tuedd am i fyny yn gyffredinol, a nifer y cleifion sy’n dechrau eu triniaeth ddiffiniol gyntaf, sydd wedi bod yn sefydlog ers dechrau cofnodi.

Ffynhonnell: Lwybr Canser a Amheuir, Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW) ac Adnodd Data Cenedlaethol (NDR)

### Llwybr amheuaeth o ganser (llwybrau wedi’u cau) ar StatsCymru

[Nodyn 1]: Cyflwynwyd proses newydd o gasglu data am y llwybr amheuaeth o ganser ym mis Rhagfyr 2020.

Ym mis Ionawr, roedd 1,760 o lwybrau lle’r oedd cleifion newydd gael diagnosis

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

o ganser wedi dechrau eu triniaeth ddiffiniol gyntaf yn ystod y mis. Roedd hyn 15.8% yn fwy na'r mis blaenorol.

Cafodd 13,429 o lwybrau eu cau, ar ôl i gleifion gael gwybod nad oedd ganddynt ganser. Mae hyn 17.5% yn fwy na'r mis blaenorol. Ym mis Ionawr, agorwyd 15,903 o lwybrau cleifion yn ystod y mis yn dilyn amheuaeth newydd o ganser. Roedd hyn yn gynnydd o 4,061 (34.3%) o'i gymharu â'r mis blaenorol ac yn gynnydd o 16.4% o'i gymharu â mis Ionawr 2022.


## Perfformiad

### Targed

- Dylai o leiaf 75% o gleifion ddechrau cael triniaeth o fewn 62 diwrnod (heb ohiriadau) ar ôl i'r amheuaeth o ganser godi am y tro cyntaf. Nid yw'r targed yn berthnasol i ddata a gyhoeddwyd ar gyfer cyfnodau amser cyn Rhagfyr 2020.
- Fe wnaeth y **cynllun adfer gofal wedi'i gynllunio** sefydlu targed newydd o 80%, i'w gyrraedd erbyn 2026.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Ffigur 15: Canran y llwybrau lle dechreuodd y claf ar ei driniaeth ddiffiniol gyntaf o fewn yr amser targed, Ionawr 2020 i Ionawr 2023 [Nodyn 1]**




Disgrifiad o Ffigwr 15: Siart linell yn dangos canran y cleifion a ddechreuodd eu triniaeth ddiffiniol gyntaf o fewn 62 diwrnod ar ôl i'r amheuaeth o ganser godi am y tro cyntaf a'r targed perfformiad o 80%. Mae'r perfformiad yn amrywio, ond cafwyd tuedd gyffredinol am i lawr yn y blynyddoedd diwethaf.

Ffynhonnell: Lwybr Canser a Amheuir, Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW) ac Adnodd Data Cenedlaethol (NDR)

### Llwybr amheuaeth o ganser (llwybrau a gaewyd) ar StatsCymru

[Nodyn 1]: Cafodd y gwaith newydd o gasglu data am y llwybr amheuaeth o ganser ei gyflwyno ym mis Rhagfyr 2020, gyda tharged perfformiad o 75%. Cafodd y targed hwn ei ddiweddaru i 80% ym mis Ebrill 2022 fel rhan o'r cynllun adfer gofal wedi'i gynllunio.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Ym mis Ionawr, roedd 50.1% o’r llwybrau (881 allan o 1,760) wedi dechrau eu triniaeth ddiffiniol gyntaf o fewn 62 diwrnod ar ôl i’r amheuaeth o ganser godi am y tro cyntaf. Roedd hyn 2.8 pwynt canran yn is nag yn y mis blaenorol, 3.6 pwynt canran yn is nag ym mis Ionawr 2022, a’r isaf ers dechrau cadw cofnodion.

# Gwybodaeth am ansawdd a methodoleg

Mae'r holl wybodaeth am ansawdd a methodoleg mewn perthynas â'r datganiad ystadegol hwn i'w gweld yn y **Crynodeb perfformiad a gweithgaredd y GIG: adroddiad ansawdd**.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol 2015 yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae’r Ddeddf yn cyflwyno saith nod llesiant ar gyfer Cymru, sef: Cymru fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iachach a chyfrifol ar lefel fyd-eang, gyda chymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1) o’r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru wneud y canlynol: (a) cyhoeddi dangosyddion (“dangosyddion cenedlaethol”) y mae’n rhaid eu cymhwyso er mwyn mesur cynnydd tuag at gyrraedd y nodau llesiant, a (b) gosod copi o’r dangosyddion cenedlaethol gerbron Senedd Cymru. O dan adran 10(8) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol, pan fo Gweinidogion Cymru yn diwygio’r dangosyddion cenedlaethol, cyn gynted ag sy’n rhesymol ymarferol, rhaid iddynt wneud y canlynol: (a) cyhoeddi'r dangosyddion fel y’u diwygiwyd a (b) gosod copi ohonynt gerbron y Senedd. Gosodwyd y dangosyddion cenedlaethol hyn gerbron y Senedd yn 2021. Mae’r dangosyddion a osodwyd ar 14 Rhagfyr 2021 yn disodli’r set a osodwyd ar 16 Mawrth 2016.

Mae gwybodaeth am y dangosyddion, ynghyd â naratif ar gyfer pob un o'r nodau

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

llesiant a'r wybodaeth dechnegol gysylltiedig ar gael yn **adroddiad Llesiant Cymru**.

Rhagor o wybodaeth am **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**.

Gallai'r ystadegau sydd wedi eu cynnwys yn y datganiad hwn hefyd ddarparu naratif i gefnogi'r dangosyddion cenedlaethol a gallent gael eu defnyddio gan fyrddau gwasanaethau cyhoeddus mewn cysylltiad â'u hasesiadau llesiant lleol a'u cynlluniau llesiant lleol.

### Hoffem gael adborth gennych

Rydym yn croesawu unrhyw adborth am unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn. Gellir anfon yr adborth drwy e-bost i'r cyfeiriad hwn **ystadegau.iechyd@llyw.cymru**.

## Diweddariad nesaf

20 Ebrill 2023

## Manylion cyswllt

Ystadegydd: Ryan Pike
E-bost: **ystadegau.iechyd@llyw.cymru**

Cyfryngau: 0300 025 8099

SFR 26/2023

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.